# Priodas dan Orfod

SAFETY, TRUST AND RESPECT
DIOGELWCH, YMDDIRIED A PHARCH



Pan fydd dau berson yn caru ei gilydd, efallai y byddan nhw'n dewis priodi. Mewn unrhyw briodas, dylai'r ddau bartner fod *eisiau* priodi a *chytuno* i briodi.

**Ni ddylai unrhyw un gael ei orfodi i briodi. Mae'n anghywir ac mae'n erbyn y gyfraith.**

Mae yna lawer o resymau pam mae rhai teuluoedd yn gorfodi eu plant i briodi, gan gynnwys: traddodiadau diwylliannol; pryderon am enw da ac 'anrhydedd' yn y teulu; arian; anghymeradwyo bod eu plentyn yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol; ddim eisiau i'w plant gael perthnasoedd neu ryw; a phwysau gan y gymuned neu aelodau eraill o'r teulu.

**Does dim un rheswm dilys dros orfodi pobl i briodi.**

## Priodas wedi'i Threfnu

Weithiau, bydd rhieni o ddau deulu yn trefnu i'w plant briodi unwaith y byddant yn ddigon hen. Mae hyn yn iawn cyn belled â bod y ddau bartner eisiau priodi ei gilydd ac yn cytuno i'r briodas.

**YDW!**
**(dwi isio priodi)**

**DOES DIM DEWIS GEN I**

## Priodas dan Orfod

Mae hyn yn wahanol. Dyma lle mae un neu'r ddau o'r partneriaid yn cael eu gorfodi i briodi yn erbyn eu hewyllys. Gall priodas wedi'i threfnu droi yn briodas dan orfod os nad yw'ch rhieni'n parchu **eich hawl i ddweud 'na'.**
Mae priodas hefyd 'dan orfod' os nad oes gan un o'r partneriaid y gallu i gydsynio.
*(e.e. plentyn o dan 16 oed, neu oedolyn ag anabledd dysgu)*


Efallai dy fod yn caru dy rieni ond hefyd yn teimlo'n ddig, yn nerfus ac yn ofidus ynglŷn â chael dy orfodi i briodi. Efallai bod nhw wedi dweud wrthyt ti bydd cywilydd ar y teulu os nad wyt ti'n priodi. Efallai eu bod hyd yn oed wedi dy fygwth â thrais neu ddiarddel o'r teulu.

**Cam-drin yw hyn.**

**Poeni dy fod am gael dy orfodi i briodi rhywun?**

**Teimlo'n gaeth mewn priodas na ddewisiaist ti?**

**Mae help ar gael!**




**NSPCC Childline - 0800 11 11 -** 1-2-1 Siarad ar-lein **yma.**
**BAWSO - 0800 731 8147 -** Gwybodaeth, cyngor, a chymorth i bobl o ethnigrwydd lleiafrifol.
**Byw Heb Ofn - 0808 80 10 800 (ffonio) - 0786 00 77 333 (tecstio) - sgwrsio byw.**
**Uned Priodas dan Orfod - 020 7008 0151 - fmu@fco.gov.uk -** dolen i'r wefan **yma.**

**Os wyt ti'n meddwl bod dy fywyd mewn perygl, ffonia 999. Os wyt ti'n meddwl dy fod am gael dy gymryd allan o'r wlad a'th orfodi i briodi, cysyllta â'r Uned Priodas dan Orfod neu Childline.**

***Yn y DU, os wyt ti o dan 16 oed, mae'n anghyfreithlon i briodi.***

Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid